# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 3 (Senedd)**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Chwefror 2024

Amser: 11.00 - 12.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13698

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jane Dodds AS<br>Altaf Hussain AS<br>Sarah Murphy AS<br>Sioned Williams AS<br>Ken Skates AS |
| Staff y Pwyllgor: | Rhys Morgan (Clerc)<br>Angharad Roche (Dirprwy Glerc)<br>Claire Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cadeirydd, Jenny Rathbone.

O ganlyniad, o dan Reol Sefydlog 17.22, enwebwyd Sarah Murphy i gadeirio cyfarfod heddiw dros dro.

## 2 Papurau i'w nodi

Nododd yr Aelodau’r papurau.

2.1 Gohebiaeth gan Grŵp Cyllideb Menywod Cymru ynghylch Cyllideb Ddrafft 2024-2025 Llywodraeth Cymru

2.2 Gohebiaeth gan CWMPAS at y Cadeirydd ynghylch Cyllideb Ddrafft 2024/2025

2.3 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymchwiliad dilynol y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i ofal plant

2.4 Gohebiaeth gan Oxfam at y Cadeirydd ynghylch yr adroddiad Camau Bach, Brwydrau Mawr: Gofal Plant yng Nghymru

2.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

2.6 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y Cytundeb ar gyfer Darparu Partneriaeth Lloches i Gryfhau Ymrwymiadau Rhyngwladol a Rennir i Ddiogelu Ffoaduriaid a Mudwyr

2.7 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Cydnabyddiaeth Gilyddol y DU a Phortiwgal at Ddibenion Gyrru a Chyfnewid Trwyddedau

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill cyfarfod heddiw

Derbyniodd yr Aelodau'r cynnig.

## 4 Cyllideb Ddrafft 2024-25: trafod yr adroddiad drafft

Cytunodd yr Aelodau ar yr adroddiad drafft.

## 5 Y flaenraglen waith: trafod y papur cwmpasu

Trafododd yr Aelodau'r flaenraglen waith.